



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007

Mae'r Gorchymyn yma yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynllun pensiwn newydd ("y Cynllun") ar gyfer diffoddwyr tân sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ac mewn perthynas â nhw. Mae'r Cynllun, sydd wedi'i nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn, yn effeithiol o 6 Ebrill 2006 ymlaen, ac eithrio Rhan 13, a fydd yn effeithiol o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Mae'r Cynllun yn disodli Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a nodwyd yn Atodlen 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 ("Cynllun 1992"), er y bydd y Cynllun hwnnw yn parhau mewn grym i'r rhai sydd eisoes yn aelodau ohono. Mae pwr i roi effaith ôl-weithredol i'r Cynllun wedi'i roi gan adran 34 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ("Deddf 2004").

Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

1. Mae'r diffiniad o "pensiwn afiechyd haen uwch" yn rheol 2(1) o Ran 1 o'r Cynllun yn cynnwys croesgyfeiriad at reol 2(4) o Ran 3. Does dim rheol o'r fath. Mae'n debyg y dylai hyn gyfeirio at reol 2(3). Yn ei dro, mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad at y rheol honno yn y diffiniad o "pensiwn afiechyd haen is" gyfeirio yn hytrach at reol 2(2). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

2. Mae'r diffiniad o "hawliau credyd pensiwn" yn rheol 2(1) yn cynnwys croesgyfeiriad at adran 101B o Ddeddf 1999, sydd yn ei dro wedi'i diffinio fel Deddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999. Does dim adran o'r fath. Mae'n debyg y dylai hyn gyfeirio at adran 101B o Ddeddf 1993, sydd wedi'i

diffinio fel Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 ac sy'n cynnwys darpariaeth briodol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

3. Mae rheol 2(2) o Ran 2 o'r Cynllun yn diffinio "hawliau pensiwn personol" drwy gyfeirio at adran 71 o Ddeddf 1993. Nid yw'r term hwnnw'n cael ei ddefnyddio yn yr adran honno. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

4. Mae testun Saesneg rheolau 5(2)(a) a 6(4) o Ran 2 o'r Cynllun yn defnyddio'r ymadrodd "the notice ... is received" yn y ddau le. Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn defnyddio "y ceir yr hysbysiad" yn rheol 5(2)(a) ac "y daw'r hysbysiad ... i law" yn rheol 6(4). Dylai ymadrodd cyson gael ei ddefnyddio i gyfateb i'r un ymadrodd yn y testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

5. Mae rheol 1(8) o Ran 5 o'r Cynllun yn cyfeirio at reol 4 o Ran 10. Mae'n mynd ymlaen i gyfeirio yn is-baragraff (b) at "daliad o dan baragraff (2) o'r rheol honno". Nid at daliadau y mae paragraff (2) yn cyfeirio, ond at amseru hysbysiadau. At baragraff (1) neu (4) y dylid cyfeirio: mae'r ddau'n ymwneud â thaliadau. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

6. Yn nhestun Cymraeg rheol 4 o Ran 9, ceir yr ymadrodd "65 pump a hoed". Mae'n glir mai gwall teipograffyddol sydd yma. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

7. Mae rheol 6(4) o Ran 10 yn cyfeirio at y "fformiwla ym mharagraff (1)". Does dim fformiwla ym mharagraff (1). Mae'n ymddangos mai croesgyfeiriad at y fformiwla ym mharagraff (3) a ddylai fod yma. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

8. Mae rheol 4(10) o Ran 12 yn cyfeirio at Ddeddf Cwmnïau 1985, ond mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at adran 736 a'r testun Cymraeg yn cyfeirio at adran 376. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

9. Mae testun Saesneg rheol 12(1) yn defnyddio'r ymadrodd "the pensionable service the firefighter member was entitled to reckon as at the date", ond mae'r Gymraeg yn defnyddio "y gwasanaeth pensiynadwy yr oedd gan yr aelod-ddiffoddwr tân hawlogaeth i'w gyfrif fel y dyddiad". Bernir y byddai "ar y dyddiad" yn adlewyrchu bwriad y ddarpariaeth yn fwy cywir. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

10. Mae testun Saesneg rheol 2(2) o Ran 13 yn cynnwys yr ymadrodd "their future liability". Does dim term fel "yn y dyfodol" yn y testun Cymraeg a fyddai'n cyfateb i "future". [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

11. Mae testun Saesneg rheol 7(2)(c) o Ran 13 yn golygu ei bod yn ofynnol talu "the amount of the audited deficit", ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "swm y diffyg nas archwiliwyd". Mae'r un gwahaniaeth i'w weld yn rheol 8(2)(c) o'r Rhan honno. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

12. Mae testun Cymraeg rheol 5(1) o Ran 15 yn cyfeirio at "Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007", ond yn y testun Saesneg mae'r flwyddyn ar goll a dylai gael ei fewnosod. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

13. Ym mharagraff 4(6) o Atodiad 2, mae'r gair "cyfrifol" i'w gael mewn perthynas â'r apelydd, ond

does dim ansoddair cyfatebol yn nhestun Saesneg yr Atodiad. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

14. Mae paragraff 5 o Atodiad 2 yn cyfeirio at apêl "to be pursued". Mae'r cyd-destun yn dangos mai apêl sydd i'w pharhau yw'r ystyr. "Apêl i'w dwyn" sydd wedi'i ddefnyddio yn y testun Cymraeg, sy'n golygu dod ag apêl, hynny yw ei chyflwyno hi. Byddai ymadrodd fel "i fynd ymlaen" yn fwy priodol. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

15. Mae paragraff 1(5)(b) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn yn amnewid un o ddarpariaethau'r Cynllun fel trefniant dros dro. Gan fod y ddarpariaeth sydd i'w disodli ar gael yn y ddwy iaith, dylai'r term sy'n cael ei fewnosod gan destun Cymraeg yr Atodlen fod yn Gymraeg hefyd. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw'r rhain i gyd a byddai'n briodol eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Yn y testun Saesneg, ffurf luosog y rhagenw a'r ferf sydd wedi'i defnyddio drwyddi draw ar gyfer yr awdurdod, er mai yn yr unigol y cyfeirir at yr awdurdod yn gyffredinol. Mae'r testun Cymraeg, sy'n defnyddio ffurf unigol y rhagenw a'r ferf, yn darllen yn rhwyddach, yn ogystal â bod yn fwy cywir o ran gramadeg.

Mae paragraff 2(2) o Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau tân ac achub ddarparu datganiadau ysgrifenedig "heb fod yn hwyrach na 30 Mawrth 2007", er na ddaw'r Gorchymyn i rym tan y diwrnod cynt. Er nad yw'n ôl-weithredol yn dechnegol, er mwyn i'r awdurdodau gydymffurfio â'r gofyniad yma, fe fydd yn rhaid iddynt fod wedi gwneud y gwaith angenrheidiol cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

20 Mawrth 2007